# Cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr di-dâl yng Nghymru

## Gofalwyr Cymru
## Tachwedd 2023

Cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr di-dâl yng Nghymru: Ymarfer, heriau ac argymhellion

gofalwyr CYMRU

# Cynnwys


**Cyflwyniad - Y dull Cymreig o gyd-gynhyrchu ........ 2**
**Methodoleg a chwmpas ........ 3**
**Adran 1: Mecanweithiau ac enghreifftiau o gyd-gynhyrchu a phartneriaid perthnasol ........ 4**
**Adran 2: Y profiad o hwyluso cyd-gynhyrchu ........ 11**
**Gwahodd gofalwyr i ymgysylltu â chyd-gynhyrchu ........ 12**
**Cefnogaeth i hwyluso cyfranogiad gofalwyr ........ 12**
**Heriau o ran cyd-gynhyrchu gofalwyr ........ 13**
**Adran 3: Sut mae cyd-gynhyrchu'n cael ei fonitro? ........ 14**
**Adran 4: Casgliadau ........ 16**
**Pa mor gyffredin yw cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr ledled Cymru? ........ 16**
**Hwyluso a gwreiddio cyd-gynhyrchu ........ 18**
**Adran 5: Argymhellion ........ 19**
**Atodiad 1 ........ 20**


# Cyflwyniad - Y dull Cymreig o gyd-gynhyrchu

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sydd mewn grym ers 2016, wedi sefydlu sail newydd ar gyfer hawliau cyfreithiol gofalwyr di-dâl yng Nghymru. Mae'r Cod Ymarfer[1] sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf yn cyfeirio at gyd-gynhyrchu fel "ffordd o weithio lle mae ymarferwyr a phobl yn gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid cyfartal i gynllunio a darparu gofal a chymorth", gan egluro bod y dull hwn "yn cefnogi ac yn grymuso pobl i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a gweithredu gwasanaethau". Yn unol â hynny, o dan y Ddeddf, mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd i gyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr ac eraill wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Dywed Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru bod cyd-gynhyrchu yn digwydd pan fydd gweithwyr proffesiynol yn gweithio mewn partneriaeth â phobl sydd â phrofiad byw i ddatblygu datrysiadau i heriau mewn gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau. Maent yn awgrymu bod cyd-gynhyrchu effeithiol yn seiliedig ar 5 egwyddor[2]:

---

[1] Gofal Cymdeithasol Cymru: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cynllunio, Comisiynu a Cyd-gynhyrchu

[2] Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru (2018): Dangosir pum egwyddor cyd-gynhyrchu

1. Gwerthfawrogi'r holl gyfranogwyr ac adeiladu ar eu cryfderau.
2. Datblygu rhwydweithiau o gyd-gefnogaeth.
3. Gwneud yr hyn sy'n bwysig i'r holl bobl perthnasol.
4. Meithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth; rhannu grym a chyfrifoldeb.
5. Gall pobl fod yn llunwyr newid, ac mae sefydliadau'n galluogi hyn.

Mae'r Siarter ar gyfer Gofalwyr Di-dâl[3], a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022, yn diffinio cyd-gynhyrchu fel "annog unigolion i gymryd mwy o ran yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau". Mae adran cyd-gynhyrchu'r Siarter yn datgan y dylai gofalwyr di-dâl fod yn "bartneriaid cyfartal wrth greu polisïau a gwasanaethau", gan fynd ymlaen i ddweud bod hyn yn golygu "cael llais wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau, cynllunio a darparu, ond hefyd wrth ddatblygu ymchwil a hyfforddiant". Yn ogystal, mae'n pwysleisio y dylai mudiadau sicrhau bod gofalwyr "yn cael eu cynnwys o gamau cynnar y broses hyd at y penderfyniadau terfynol". Gellir defnyddio'r term cyd-gynhyrchu ochr yn ochr, a gellir dadlau ei fod yn gorgyffwrdd ag egwyddorion "llais a rheolaeth" y Ddeddf, i gyfeirio at unigolion sy'n gweithio gyda gweithwyr proffesiynol i bennu eu pecynnau gofal a chymorth eu hunain, er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyd-gynhyrchu ar lefel gwasanaeth yn lle hynny, fel y pwysleisir gan y Siarter uchod.

Mae'r ymrwymiad deddfwriaethol i gyd-gynhyrchu gyda gofalwyr di-dâl yn cydnabod, yn briodol, bod gofalwyr yn dod â gwybodaeth a phrofiadau gwerthfawr i'r gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau. Pan fydd cyd-gynhyrchu'n gweithredu'n effeithiol, mae penderfyniadau a gwasanaethau'n llawer mwy tebygol o ddiwallu anghenion gofalwyr yn yr ardal berthnasol, gan sicrhau bod gwasanaethau a chyllid yn cael eu targedu'n effeithiol a'u bod yn ymateb i anghenion a dewisiadau dinasyddion.

## Methodoleg a chwmpas

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gofalwyr Cymru ymchwilio i lefel y cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr ledled Cymru ac i lunio argymhellion. Roeddem yn cydnabod pwysigrwydd casglu gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â chynllunio a darparu gwasanaethau i ofalwyr ledled Cymru, ac felly anfonom ni arolwg casglu gwybodaeth at gysylltiadau ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Yn ogystal, anfonwyd ein harolwg at nifer o sefydliadau cysylltiedig sydd â rôl o ran ymgysylltu â gofalwyr, fel Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd yr arolwg yn gofyn i ymatebwyr egluro sut mae cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr yn digwydd yn eu hardal, y ffyrdd y mae gofalwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu, y sefydliadau partner y gallant weithio gyda nhw i hwyluso cyd-gynhyrchu a sut mae cyd-gynhyrchu yn cael ei fonitro yn eu sefydliadau. Mae rhestr lawn o'n cwestiynau i'w gweld yn Atodiad 1.

[3] Llywodraeth Cymru (2022): Siarter ar gyfer Gofalwyr Di-dâl

Ymatebodd 41 o unigolion i'r arolwg. Cafwyd ymatebion gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Yn ogystal, cafwyd ymatebion gan 5 Cyngor Gwirfoddol Sirol a 4 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mewn rhai achosion, ymatebodd nifer o unigolion o'r un sefydliad. Cafodd 4 ymateb eu diystyru am nad oeddent yn berthnasol i gwmpas yr ymchwil. Derbyniwyd ymatebion rhwng mis Hydref 2022 a mis Chwefror 2023. Yna, ym mis Awst 2023, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn dymuno darparu unrhyw ddiweddariadau.

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a nodir yn yr adroddiad hwn yn deillio o ymatebion i'r arolwg. Defnyddiwyd ymchwil bwrdd gwaith, a oedd yn bennaf yn cynnwys dadansoddiadau o wefannau a dogfennau awdurdodau lleol, e.e. adroddiadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, i egluro neu i ategu gwybodaeth a gasglwyd drwy'r arolwg pan oedd angen. Gofynnwyd i Gynrychiolwyr Gofalwyr ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer eu rhanbarthau.

Ni fu'n bosibl, o fewn cwmpas y gwaith ymchwil hwn, i lunio adolygiad cynhwysfawr sy'n cwmpasu pob achos o gyd-gynhyrchu gyda gofalwyr sy'n digwydd ar hyn o bryd ledled Cymru. Yn ogystal, nid yw wedi bod yn bosibl gwneud penderfyniadau manwl ar yr enghreifftiau o gyd-gynhyrchu a'u canlyniadau ar sail y wybodaeth o'r ymatebion i'r arolwg. Byddai hyn yn gofyn am werthusiad cynhwysfawr, gan gasglu gwybodaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid sy'n ymwneud ag achos o gyd-gynhyrchu i gasglu safbwyntiau gwahanol. Yn hytrach, mae'r gwaith ymchwil hwn wedi ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol o bob rhan o Gymru i fapio llawer o'r ffyrdd y mae cyd-gynhyrchu'n digwydd gyda gofalwyr wrth gynllunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau yn lleol ac yn rhanbarthol. Trwy gymharu'r wybodaeth a gynigwyd gan ymatebwyr yr arolwg, ac wrth ystyried egwyddorion cyffredinol cyd-gynhyrchu a ffynonellau perthnasol, bu'n bosibl cynnig sylwebaeth ar arfer da o ran cyd-gynhyrchu gofalwyr, yn ogystal â'r heriau sy'n gysylltiedig â'r hyn a brofwyd gan yr ymatebwyr, ac i argymhellion gael eu cynhyrchu o ganlyniad.

## Adran 1: Mecanweithiau ac enghreifftiau o gyd-gynhyrchu a phartneriaid perthnasol

Mae'r Cod Ymarfer[4] sy'n cyd-fynd â Deddf 2014 yn dweud bod yn rhaid i awdurdodau lleol "roi trefniadau tryloyw ar waith lle mae pobl yn bartneriaid cyfartal wrth gynllunio a darparu gwasanaethau". Rhaid i'r mecanweithiau a'r prosesau lleol hyn lle mae cyd-gynhyrchu yn digwydd gael eu cynllunio a'u gweithredu mewn ffordd sy'n rhoi llais ystyrlon i ofalwyr wrth wneud penderfyniadau, gan eu cynnwys o gamau cynnar y broses hyd at y penderfyniadau terfynol. Gan gydnabod y bydd llawer o awdurdodau lleol yn comisiynu neu'n cydweithio â sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau i ofalwyr, mae'r Cod yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol hefyd "sicrhau bod darparwyr

[4] Gofal Cymdeithasol Cymru: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cynllunio, Comisiynu a Cyd-gynhyrchu

y maent yn comisiynu neu'n caffael gwasanaethau ganddynt yn annog ac yn galluogi pawb i gyfrannu at gynllunio ffurf gwasanaethau". Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n dod ag awdurdodau lleol a'r GIG ynghyd i gynllunio gwasanaethau gofal ar lefel ranbarthol, gynnwys o leiaf un person i gynrychioli buddiannau gofalwyr yn y rhanbarth.

Ar sail yr ymatebion i'r arolwg a gwaith ymchwil bwrdd gwaith, mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o'r trefniadau, y strwythurau a'r mecanweithiau ar gyfer cyd-gynhyrchu lleol a rhanbarthol gyda gofalwyr yng Nghymru, a'r sefydliadau sy'n ymwneud â'u hwyluso, yn y sector statudol a'r trydydd sector, ynghyd â rhai enghreifftiau diweddar.

Yn yr un modd â'r wybodaeth yn adrannau 2 a 3, mae'r rhan fwyaf o'r darnau o wybodaeth yn yr adran hon wedi cael eu darparu gan awdurdodau lleol ac maent yn cael eu derbyn fel enghreifftiau dilys o gyd-gynhyrchu. Mae'n bosibl y bydd rhanddeiliaid lleol eraill, gan gynnwys gofalwyr, yn disgrifio neu'n edrych ar yr enghreifftiau hyn mewn ffordd wahanol.

## Rhanbarth Caerdydd a'r Fro

Sir

Ym mis Medi 2022, sefydlodd Cyngor Caerdydd 'Grŵp Effaith Gofalwyr Di-dâl' sy'n cwrdd bob 8 wythnos i gefnogi dull cyd-gynhyrchu o adolygu a datblygu gwasanaethau. Mae'r grŵp yn cynnwys gofalwyr di-dâl a chynrychiolwyr o Gyngor Caerdydd a'r bwrdd iechyd. Mae wedi trafod ystod o bynciau sy'n peri pryder i ofalwyr ac, yn ddiweddar, mae wedi adolygu'r adborth gan ofalwyr a fynychodd grwpiau ffocws a gynhaliwyd ar y cyd gan Gyngor Caerdydd a Gofalwyr Cymru i wella Asesiadau o Anghenion Gofalwyr yn y sir.

Mae Strategaeth Heneiddio'n Dda 2022-2027 Cyngor Caerdydd[5] yn ymrwymo i weithio gyda gofalwyr di-dâl i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Mae'r Care Collective, gyda chefnogaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, yn trefnu cyfarfodydd Paneli Arbenigol gofalwyr lle gall gofalwyr drafod eu profiadau gyda gwasanaethau.

Mae Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro, a ariennir gan y ddau awdurdod lleol, a Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn hwyluso cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wrth lunio gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi gwahodd gofalwyr i gymryd rhan mewn prosesau caffael a monitro contractau. Er enghraifft, mae panel o breswylwyr, gan gynnwys gofalwyr, wedi cael ei gynnull yn ddiweddar i werthuso cynigion fel rhan o'r contract gofal cartref, Gofal Ychwanegol.

Mae'r Prosiect Gofalwyr Ifanc, a gomisiynwyd gan YMCA Caerdydd, wedi defnyddio grwpiau ffocws ac arolygon i gasglu barn gofalwyr ifanc am ddarpariaeth leol.

---

[5] Cyngor Caerdydd (2022): Strategaeth Heneiddio'n Dda Caerdydd 2022 – 2027

Rhanbarthol

Yn ogystal ag eistedd ar Fwrdd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, mae gofalwyr di-dâl yn aelodau o Fwrdd Rhaglen y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer Dementia, a'r Bwrdd Gofalwyr Di-dâl. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn gweithio gyda sefydliadau trydydd sector fel y Care Collective ac YMCA sydd â'u mecanweithiau ymgysylltu gyda gofalwyr eu hunain.

Mae Siarter Gofalwyr Di-dâl[6] y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn addo "gwrando ar lais gofalwyr di-dâl i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a chymorth". Gweithiodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyda Tempo i lunio'r Strategaeth Gofalwyr Di-dâl ranbarthol. Mae Tempo yn hwyluso fforymau a chredydau amser ar gyfer gofalwyr di-dâl.

## Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg

Sir

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn defnyddio dull Cymuned Ymholi ar gyfer cyd-gynhyrchu ym maes gofal cymdeithasol i oedolion. Teimlir bod y model yn rhoi arweiniad clir i staff ar sut y gellir dechrau cyd-gynhyrchu, ac mae'r model wedi cael ei ddefnyddio mewn nifer o feysydd, gan gynnwys datblygu canllawiau i staff ar Daliadau Uniongyrchol ac Asesiadau o Anghenion Gofalwyr. Yn ogystal, mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf grwpiau cyd-gynhyrchu o fewn eu gwasanaethau anabledd dysgu sy'n cynnwys gofalwyr.

Mae Partneriaeth Traws Sector Creu Cymunedau Cydnerth Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys cynrychiolwyr gofalwyr. Yn ogystal, mae manyleb eu Gwasanaeth Lles Gofalwyr yn cynnwys ymrwymiad i gyd-gynhyrchu.

Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi gweithio gyda Nick Andrews (Prifysgol Abertawe) ac eraill i ddefnyddio'r fethodoleg Datblygu Ymarfer sy'n Cyfoethogi Tystiolaeth (DEEP) i ymgysylltu â gofalwyr.

Ar hyn o bryd mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda Practice Solutions i ymgysylltu â gofalwyr i ddiwygio'r polisi ar daliadau uniongyrchol.

Mae gan Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT) brosiect parhaus sy'n ymwneud â gwobrwyo a chydnabod defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl a gofalwyr sydd wedi cymryd rhan yn y gwaith o rannu eu profiadau a'u syniadau gyda gwasanaethau iechyd meddwl lleol. Mae VAMT hefyd yn gweithio ar ddatblygu llwybr cyd-gynhyrchu.

Mae cynrychiolwyr gofalwyr yn ymwneud â chynllunio gwasanaethau anabledd dysgu ym Merthyr Tudful.

Rhanbarthol

[6] Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a'r Fro: Siarter Gofalwyr Di-dâl Caerdydd a'r Fro

Comisiynodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Our Voice Matters i adolygu cyd-gynhyrchu yn y rhanbarth. Gwnaeth y prosiect[7] 6 argymhelliad yn 2021 i wella cyd-gynhyrchu ledled y rhanbarth. Lansiwyd diffiniad cyd-gynhyrchu rhanbarthol a gyd-gynhyrchwyd yn 2023, ar ôl ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, gan gynnwys digwyddiad *"Co-producing co-production hackathon*" ym mis Medi 2022. Y gobaith yw y bydd y diffiniad yn helpu sefydliadau partner yn y rhanbarth i ddeall a gwreiddio cyd-gynhyrchu yn eu gwaith. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi trefnu digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer gofalwyr di-dâl i lywio ei Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth a'i Gynllun Ardal Rhanbarthol.

Dros y blynyddoedd nesaf, mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf yn bwriadu cyd-gynhyrchu Siarter Cyd-gynhyrchu a Strategaeth Cyd-gynhyrchu a fydd, gobeithio, yn creu cymuned ymarfer ranbarthol o amgylch cyd-gynhyrchu.

Yn ogystal â chynrychiolaeth gofalwyr ar Fwrdd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, mae Cynrychiolydd Gofalwyr ar Grŵp Llywio Dementia'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

## Rhanbarth Gwent

Sir

Mae Caffi Gofalwyr Casnewydd yn cwrdd bob mis ac yn galluogi gofalwyr i siarad â staff y cyngor. Mae Rhwydwaith Gofalwyr Casnewydd yn cwrdd tair gwaith y flwyddyn ac yn dod â gofalwyr a rhanddeiliaid at ei gilydd i rannu gwybodaeth a thrafod gwasanaethau. Mae Cyngor Casnewydd hefyd yn cynnal grwpiau ffocws gyda gofalwyr ac yn casglu adborth gan ofalwyr mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned.

Mae Blaenau Gwent yn comisiynu partneriaid trydydd sector sy'n canolbwyntio ar ofalwyr, i ymgysylltu â gofalwyr yn y sir a'u hannog i gymryd rhan mewn sesiynau grŵp lle gallant fynegi eu barn am wasanaethau a gweithgareddau yr hoffent eu gweld yn yr ardal. Maent wedi ymgysylltu'n bennaf â Gwasanaeth Cymunedol Gofalwyr Age Cymru Blaenau Gwent a'r Care Collective, sydd ill dau'n darparu gwybodaeth a chyngor a gweithgareddau cymdeithasol i ofalwyr, ar sail adborth gan ofalwyr.

Yn Sir Fynwy, mae'r Grŵp Strategaeth Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr yn dwyn ynghyd rhanddeiliaid lleol amrywiol ac yn cynnwys gofalwyr di-dâl.

Tynnodd Cyngor Torfaen sylw at waith Cynghrair Gwirfoddol Torfaen (TVA) a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) o ran hyrwyddo cyfleoedd i ofalwyr gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu.

Eglurodd Cyngor Caerffili eu bod yn gofyn i ofalwyr gymryd rhan pan fyddant yn comisiynu gwasanaethau, a'u bod yn ymgysylltu â gofalwyr drwy ddigwyddiadau cymunedol a pholau Facebook ar y gweithgareddau yr hoffai gofalwyr eu gweld.

Rhanbarthol

[7] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg: Wrth ei wraidd, mae cyd-gynhyrchu yn ymwneud â meithrin perthnasoedd a datblygu ymddiriedaeth

Mae Panel Dinasyddion Gwent yn dwyn ynghyd pobl sy'n byw yng Ngwent, a gofynnir iddynt roi eu barn ac ymgynghorir â hwy ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Er nad yw'r Panel yn canolbwyntio'n bennaf ar ofalwyr, mae ei aelodaeth yn cynnwys gofalwyr. Mae cynghorau yn y rhanbarth wedi hyrwyddo cyfleoedd i ymuno â'r Panel i ofalwyr. Mae'r Panel yn cyfarfod bob mis mewn fformat hybrid.

Mae gofalwyr yn eistedd ar Fwrdd Partneriaeth Strategol Gofalwyr Gwent[8] (un o chwe phartneriaeth integredig strategol a sefydlwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol) ac yn rhoi llais i ofalwyr ar draws y rhanbarth. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Strategol Gofalwyr hefyd yn cysylltu â chydlynwyr a grwpiau gofalwyr sefydledig ym mhob un o'r 5 ardal awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi gwaith Paneli Arbenigol gofalwyr sy'n cael eu rhedeg ar y cyd â'r Care Collective. Cynhaliwyd 12 cyfarfod yn 2021/2022 i roi llais i ofalwyr wrth gynllunio gwasanaethau.

Mae pobl â dementia a'u gofalwyr yn eistedd ar 5 grŵp lleol sy'n cydlynu'r gwaith o ddarparu Cymunedau Cyfeillgar i Ddementia ac ymwybyddiaeth o Gyfeillion Dementia[9].

## Rhanbarth Gogledd Cymru

Sir

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu Grŵp Ymgynghori Gofalwyr sy'n cyfarfod i roi adborth ar wasanaethau a chynlluniau. Yn ogystal, maent yn cynnal sesiynau galw heibio rheolaidd i gasglu adborth mewn lleoliad llai ffurfiol.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cefnogi grwpiau Gofalwyr Ifanc ar wahân, gyda Gofalwr Ifanc o Sir y Fflint yn eistedd ar y Pwyllgor Gofalwyr Ifanc rhanbarthol.

Ar ben hynny, mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithio gyda phartneriaid trydydd sector amrywiol sy'n hwyluso llais y gofalwr mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys: Newcis, The Neuro Therapy Centre, Daffodils, Outside Lives, Adferiad, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr.

Mae gan Gyngor Ynys Môn Grŵp Gofalwyr sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r trydydd sector ac awdurdodau lleol. Mae Cyngor Ynys Môn yn gweithio gyda Medrwn Môn, y Gwasanaeth Allgymorth Gofalwyr ac Ymddiriedolaeth y Gofalwyr i hwyluso cyd-gynhyrchu.

Mae Grŵp Strategaeth Gofalwyr Cyngor Sir Ddinbych yn dwyn ystod o fudiadau trydydd sector ynghyd, yn ogystal â chynrychiolwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Nid yw gofalwyr yn aelodau o'r grŵp hwn, er bod y grŵp yn derbyn gwybodaeth gan rwydweithiau o grwpiau cymunedol.

Mae Cyngor Conwy yn ymgynghori â gofalwyr fel rhan o weithgareddau comisiynu ac mae eu Swyddog Cyfranogi yn cefnogi ymgysylltu cyffredinol â dinasyddion. Mae Conwy yn derbyn mewnwelediadau ar brofiadau gofalwyr drwy'r mudiadau

[8] Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent: Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
[9] Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent: Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

trydydd sector y mae'n darparu gwasanaethau ar y cyd â nhw, gan gynnwys y Gwasanaeth Allgymorth Gofalwyr, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Crossroads, Hafal (Adferiad) a'r Gymdeithas Alzheimer.

Mae Cyngor Wrecsam yn comisiynu Newcis i ddarparu gwasanaeth gofalwyr di-dâl ledled Wrecsam. Mae Newcis yn cynnal grwpiau a fforymau rheolaidd i gael adborth gan ofalwyr di-dâl. Cynhelir arolygon gofalwyr di-dâl blynyddol hefyd.

Mae Cyngor Gwynedd yn cysylltu â gofalwyr yn unigol neu drwy grwpiau sydd naill ai'n cael eu rhedeg gan staff y Cyngor neu gan bartneriaid yn y trydydd sector megis y Gwasanaeth Allgymorth Gofalwyr.

Rhanbarthol

Mae grŵp o ofalwyr di-dâl yn gweithio gyda Grŵp Llywio Strategaeth Dementia Gogledd Cymru i helpu i lunio gwasanaethau yng Ngogledd Cymru[10].

Mae cynlluniau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn y dyfodol yn cynnwys annog a chefnogi gofalwyr i gymryd rhan mewn fforymau a chyfleoedd lle gellir clywed eu lleisiau ar lefel leol a rhanbarthol[11].

## Powys

Mae Cyllid Integreiddio Rhanbarthol Cyngor Powys ar gyfer prosiectau gofalwyr wedi cael ei gyd-gynhyrchu a'i werthuso gan Grŵp Llywio Gofalwyr[12], sy'n adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae Cynrychiolwyr Gofalwyr ar y Grŵp Llywio Gofalwyr, gyda chefnogaeth Credu. Mae cadeirydd sy'n cylchdroi rhwng y Bwrdd Iechyd, yr Awdurdod Lleol a Chynrychiolydd Gofalwyr.

Defnyddiwyd cyllid RIF i alluogi gofalwyr i fynychu cyfarfodydd y partneriaethau Dechrau Da, Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda sy'n bwydo i mewn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae dau Gynrychiolydd Gofalwyr ar Fwrdd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Sefydlwyd Grŵp Ymgysylltu a Mewnwelediad Powys yn 2022 i drafod arferion gorau ac i gydgysylltu gwaith ar draws y bartneriaeth ynghylch cynnwys dinasyddion yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau.

## Rhanbarth Gorllewin Morgannwg

Sir

Comisiynodd Cyngor Abertawe Wasanaeth Gwirfoddol Sirol Abertawe i sefydlu Fforwm Gofalwyr Rhieni Abertawe. Mae Fforwm Gofalwyr Rhieni Abertawe bellach yn elusen gofrestredig ac mae'n cefnogi rhieni sy'n ofalwyr i gyfrannu at waith yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ddiweddar, mae wedi

[10] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (2022): Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru
[11] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (2022): Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru
[12] Cyngor Sir Powys: Grŵp Llywio Gofalwyr

gweithio i ddiwygio Asesiadau o Anghenion Gofalwyr a Thaliadau Uniongyrchol yn Abertawe.

Mae Cyngor Abertawe yn comisiynu YMCA i hwyluso Cyngor Gofalwyr Ifanc.

Ceir Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Abertawe, a gefnogir gan yr awdurdod lleol. Mae'n dwyn ynghyd unigolion sydd â diddordeb mewn cydweithio ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol yn Abertawe.

Mae Canolfan Gofalwyr Abertawe a Hwb Dementia Abertawe yn helpu i nodi gofalwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyd-gynhyrchu.

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot yn annog gofalwyr yn y sir i ymgysylltu â'r Fforwm Cyswllt Gofalwyr rhanbarthol. Fodd bynnag, mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn adolygu mecanweithiau parhaus ar gyfer ymgysylltu â gofalwyr a chyd-gynhyrchu fel rhan o adolygiad a gychwynnwyd yn ddiweddar o wasanaethau gofalwyr yn y sir.

Rhanbarthol

Mae'r holl sefydliadau partner ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg wedi ymrwymo i Siarter Cyd-gynhyrchu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg[13].

Mae Fforwm Cyswllt Gofalwyr Gorllewin Morgannwg yn rhoi llais unedig i ofalwyr ym Mhartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg. Mae'n cwrdd yn rheolaidd ac yn cael cymorth gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Fforwm Cyswllt Gofalwyr yn cefnogi gofalwyr i ymwneud mwy â chyd-gynhyrchu rhanbarthol ac mae wedi gwahodd gofalwyr i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â dyrannu cyllid i ofalwyr.

Ym mis Medi 2023, gwahoddodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg aelodau gofalwyr o'r Fforwm Cyswllt Gofalwyr i ymuno â nifer o fyrddau yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys Cyflyrau Niwroamrywiol, Lles ac Anableddau Dysgu, Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl a Phartneriaeth Gofalwyr.

## Rhanbarth Gorllewin Cymru

Sir

Mae Fforwm Llais Gofalwyr Sir Benfro yn rhoi cyfle i ofalwyr di-dâl gymryd rhan mewn ymarferion cyd-gynhyrchu yn Sir Benfro a rhanbarth Gorllewin Cymru ehangach. Mae'n cael ei hwyluso ar y cyd gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) a Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr Sir Benfro gyda chymorth gan y Cyngor Sir.

Nod Fforwm Gofalwyr Sir Gaerfyrddin yw rhoi llais i ofalwyr er mwyn iddynt allu cyfrannu at gynllunio a datblygu gwasanaethau.

---

[13] Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg (2021): Siarter Cyd-gynhyrchu Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg

Mae Cyngor Ceredigion yn trefnu nifer o ddigwyddiadau bach drwy gydol y flwyddyn i ymgysylltu â gofalwyr, gan gynnwys digwyddiadau te a chacennau a digwyddiadau i ddathlu Wythnos y Gofalwyr.

Rhanbarthol

Roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn cynnwys gofalwyr yn y gwaith o lunio Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru 2020-2025[14], a oedd yn seiliedig ar arolwg yr ymatebodd dros 500 o ofalwyr iddo yn y rhanbarth yn 2020.

Mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru yn is-grŵp ffurfiol o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, y tri awdurdod lleol yn y rhanbarth, yn ogystal â sefydliadau'r trydydd sector a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yng ngorllewin Cymru.

## Adran 2: Y profiad o hwyluso cyd-gynhyrchu

Mae'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru[15] yn datgan y dylai sefydliadau ei gwneud yn hawdd i bobl gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, gyda rhwystrau i gyfranogiad yn cael eu nodi a'u datrys, gan gynnwys drwy ddarparu hyfforddiant a chymorth priodol i "alluogi pawb sy'n cymryd rhan i ymgysylltu'n effeithiol". Canfu gwerthusiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol 2014[16], "yn enwedig o safbwynt gofalwyr", bod cyd-gynhyrchu da yn gofyn am "sylwi ar gostau a heriau ymarferol cymryd rhan", gydag un gofalwr di-dâl yn dweud y "dylai fod yn hawdd i bobl eistedd ar y grwpiau hyn a chynrychioli, ond mae'n rhaid cael cefnogaeth strwythuredig, sy'n aml ar goll".

Os yw cyd-gynhyrchu ystyrlon gyda gofalwyr i weithredu'n effeithiol, rhaid i sefydliadau fynd ati'n rhagweithiol i estyn allan at ofalwyr a rhoi gwybod iddynt am gyfleoedd cyd-gynhyrchu. Rhaid iddynt hefyd ddarparu cymorth i hwyluso eu cyfranogiad llawn mewn prosesau cyd-gynhyrchu, gan gydnabod, heb gymorth, y gallai ymgysylltu fod yn frawychus, efallai y byddant yn ei chael yn anodd dod o hyd i'r amser sydd ei angen a gellir lleihau eu cyfraniad os yw'r ddeinameg pŵer yn y broses yn gwyro tuag at weithwyr proffesiynol sydd â llawer o adnoddau.

Mae'r adran hon yn ymdrin â'r ffyrdd y gwahoddir gofalwyr i gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu a'r sefydliadau cymorth a sefydlwyd i hwyluso cyfranogiad gofalwyr. Mae'r adran hon yn edrych mewn mwy o fanylder ar yr heriau a wynebir gan weithwyr proffesiynol wrth sicrhau bod cyd-gynhyrchu effeithiol ar waith.

[14] Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (2020): Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru 2020-2025
[15] Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru
[16] Llywodraeth Cymru (2023): Cyd-gynhyrchu: ymchwil i gefnogi adroddiad terfynol y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Gwahodd gofalwyr i ymgysylltu â chyd-gynhyrchu

Dywedodd y mwyafrif llethol o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod i ofalwyr yn eu hardal am gyfleoedd i gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu. Defnyddir cyfrifon cyffredinol awdurdodau lleol neu sefydliadau yn fwyaf cyffredin, ond mewn rhai ardaloedd maent yn gallu defnyddio tudalennau neu grwpiau penodol i ofalwyr ar y cyfryngau cymdeithasol.

Soniodd y rhan fwyaf o ymatebwyr hefyd fod cylchlythyrau e-bost at ofalwyr lleol yn ffordd ddefnyddiol o hyrwyddo cyfleoedd cyd-gynhyrchu, gyda rhai yn sôn bod cylchlythyrau neu lythyrau ffisegol hefyd yn cael eu hanfon at ofalwyr lleol. Eglurodd rhai sefydliadau y bydd staff y cyngor yn mynychu cyfarfodydd neu grwpiau cymdeithasol lle mae gofalwyr yn ymgynnull i hyrwyddo cyfleoedd iddynt yn uniongyrchol.

Roedd llawer o awdurdodau lleol yn dibynnu ar sefydliadau gofalwyr lleol a phartneriaid trydydd sector i hyrwyddo cyfleoedd cyd-gynhyrchu i ofalwyr lleol, gan ganfod bod ganddynt gysylltiadau pwysig â'r gymuned gofalwyr lleol.

## Cefnogaeth i hwyluso cyfranogiad gofalwyr

Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn dangos bod cyfran fawr o gyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyd-gynhyrchu yn cael eu cynnal ar-lein. Teimlai ymatebwyr fod hyn yn ddefnyddiol o ran galluogi gofalwyr i gymryd rhan drwy ddileu'r angen i ofalwyr deithio. Pan oedd cyfarfodydd neu ddigwyddiadau ffisegol yn cael eu cynnal, dywedodd llawer o ardaloedd eu bod yn talu am drafnidiaeth i'r gofalwr drwy dreuliau neu drwy dalu am dacsis.

Mae llawer o ofalwyr yn ei chael yn anodd dod o hyd i amser i gyd-gynhyrchu a soniodd sawl ardal y byddant yn ariannu neu'n darparu cyfleoedd seibiant neu ofal amgen i ryddhau amser y gofalwr i'w galluogi i gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu.

Soniodd llond llaw o ardaloedd eu bod yn teimlo bod defnyddio Credydau Amser yn ffordd ddefnyddiol o wobrwyo gofalwyr am gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu, er bod ymatebydd o Abertawe wedi mynegi rhai pryderon am y cynllun, gan gredu y gallant ymyrryd mewn rhai achosion â budd-daliadau a hawliwyd gan y gofalwr ac y gall gofalwyr ei chael yn anodd eu defnyddio oherwydd argaeledd gwasanaethau. Dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod yn rhoi rhoddion neu fathau eraill o werthfawrogiad i ofalwyr, gan gynnwys blodau, bagiau nwyddau a thalebau Amazon. Eglurodd ymatebydd o Ferthyr Tudful mai un rhwystr i sicrhau cyd-gynhyrchu ystyrlon oedd methiant "i gynnig gwobrau priodol ac ystyrlon i ofalwyr am yr amser maen nhw ei roi i gymryd rhan".

Gellir arsylwi ar arferion da yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg lle mae gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol aelod penodol o staff sy'n cefnogi cynrychiolwyr gwirfoddolwyr yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys gofalwyr, drwy roi cymorth ymarferol a chyfleoedd i'r cynrychiolwyr hyn ymgysylltu. Mae Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr Gorllewin Morgannwg hefyd wedi sefydlu grŵp Gorchwyl a

Gorffen i gyd-gynhyrchu polisi i helpu gofalwyr i gael y cymorth sydd ei angen arnynt i gymryd rhan yn y Fforwm Cyswllt Gofalwyr neu i ddod yn Gynrychiolydd Gofalwyr yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Siarter ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector ac aelodau darparwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol[17], yn dilyn grŵp gorchwyl a gorffen a ysgogwyd gan lythyr a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan Gofalwyr Cymru yn 2022, ar ran Cynrychiolwyr Gofalwyr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r siarter yn nodi sut gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol alluogi pob aelod i gael rôl ystyrlon ar y bwrdd, gan awgrymu nifer o ffyrdd y gallant gefnogi eu Cynrychiolwyr Gofalwyr. Er ei fod yn canolbwyntio ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae'n adnodd defnyddiol ar gyfer cynrychioli gofalwyr ar bob lefel.

## Heriau o ran cyd-gynhyrchu gofalwyr

Dywedodd llawer o ymatebwyr y gall fod yn anodd dod o hyd i ddigon o ofalwyr sydd â'r amser i gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu. Eglurodd un ymatebydd o Dorfaen: "Mae gofalwyr yn aml mor brysur gyda'u rôl gofalu fel nad oes ganddynt lawer o amser na chyfle i ymgysylltu â chyd-gynhyrchu"; tra nododd un ymatebydd o Fro Morgannwg: "Yn aml, mae gan ofalwyr di-dâl rolau gofal heriol ac mae eu hargaeledd yn gallu newid ar fyr rybudd". Yn ogystal, soniodd ymatebwyr am yr her o ymgysylltu â gofalwyr sy'n fwy anodd eu cyrraedd, fel y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu dwys iawn a allai fod ag ychydig iawn o amser rhydd i gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu.

Esboniodd nifer o ymatebwyr fod prosesau cyd-gynhyrchu yn aml yn gallu gorlwytho gofalwyr oherwydd yr ymrwymiad amser y gofynnwyd amdano, oherwydd efallai y gofynnir i ofalwyr ymgysylltu â phroses am gyfnod estynedig neu eistedd ar nifer o grwpiau a phwyllgorau. Mewn sefyllfaoedd lle mai dim ond nifer fach o ofalwyr sy'n cymryd rhan, gall hyn arwain at ofyn i nifer fach o ofalwyr wirfoddoli am gyfnod sylweddol o amser ar gyfer y broses gyd-gynhyrchu, gan rwystro effeithiolrwydd y broses.

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr y gallai ansawdd cyd-gynhyrchu fod yn gyfyngedig os nad yw'r sefydliad yn gallu casglu'r cydbwysedd cywir o safbwyntiau a phrofiad gofalu gan y gofalwyr sy'n gallu, neu sy'n fodlon, cymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu. Soniodd rhai am y posibilrwydd mai'r un bobl sy'n ymgysylltu'n barhaus, gydag ymatebydd o Gonwy yn dweud "gall fod rhywfaint o duedd o ran dethol (yn gyffredinol, nid dim ond o fewn grwpiau gofalwyr) o ran y rheini sy'n dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath, gan eu bod yn gyffredinol yn fwy hyderus ac allblyg". Yn ogystal, gall ffactorau eraill fel dwyster y rôl ofalu a ffactorau iaith a diwylliannol sicrhau bod rhai gofalwyr yn llai tebygol o ymgysylltu o gymharu ag eraill.

[17] Llywodraeth Cymru (2023): Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol: siarter ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr

Awgrymwyd bod cyllid â therfyn amser ac amserlenni byr ar gyfer gwario a chyflawni prosiectau a ariennir yn allanol yn gallu bod yn rhwystr i sicrhau cyd-gynhyrchu ystyrlon. Dywedodd un ymatebydd o Sir Benfro: “Mae cyd-gynhyrchu da yn cymryd amser ac adnoddau, nad ydynt ar gael yn aml ar yr adegau iawn er mwyn i ofalwyr allu cymryd rhan mewn ffordd ystyrlon”. Nododd ymatebydd arall fod angen “rhyddid i arbrofi, methu, dysgu… heb ofni ôl-effeithiau” er mwyn i gyd-gynhyrchu ffynnu. O ganlyniad, gellir dadlau y gallai gofynion llym gan gyllidwyr gyfyngu’n anfwriadol ar y gofod sydd ei angen ar gyfer cyd-gynhyrchu ystyrlon.

Soniodd rhai ymatebwyr am bwysigrwydd diwylliant sefydliadol o ran sicrhau cyd-gynhyrchu effeithiol, gan bwysleisio bod angen i staff ar bob lefel ddeall a chytuno i gyd-gynhyrchu. Pan nad yw hyn yn digwydd, teimlwyd bod yr arfer yn amrywio, gydag un sefydliad trydydd sector yn dweud y canlynol am eu profiadau o ymgysylltu ag adrannau awdurdodau lleol: “Hyd nes bod staff yn cael eu mesur ar sut maen nhw’n cyd-gynhyrchu, gall fod yn anghyson iawn”. Yn wir, canfu’r gwerthusiad annibynnol o Ddeddf 2014[18], a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023, bod “diwylliannau sefydliadau perthnasol a’r angen i newid diwylliant i hwyluso cyd-gynhyrchu” yn ffactor a oedd yn effeithio ar weithrediad cyd-gynhyrchu.

## Adran 3: Sut mae cyd-gynhyrchu’n cael ei fonitro?

Mae Siarter Gofalwyr Di-dâl Llywodraeth Cymru[19] yn dweud y dylai cyrff cyhoeddus “sicrhau bod diwylliant o gyd-gynhyrchu wedi’i wreiddio yn y sefydliad” a’i fod yn cael ei ddeall ymysg staff ar bob lefel. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr ar sylfaen gadarn ac y gellir disgwyl iddo weithredu’n effeithiol yn barhaus. Ar ben hynny, mae’r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru[20] yn nodi: “Dylai profiad pobl o’r broses ymgysylltu gael ei fonitro a’i werthuso i fesur ei lwyddiant”, gan sefydlu’n briodol y dylai dinasyddion allu gwerthuso’r cyd-gynhyrchu y maent yn ymwneud ag ef, yn unol â’r disgwyliad cyffredinol bod cyd-gynhyrchu da yn golygu bod dinasyddion yn cael eu cynnwys o ddechrau i ddiwedd y broses. Ar ben hynny, cwyn gyffredin ymysg gofalwyr yng ngwerthusiad Deddf 2014[21] oedd bod “diffyg adborth sylweddol a gwybodaeth ddilynol yn dilyn gweithgareddau cyd-gynhyrchu”. Roedd y gwerthusiad hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod cyd-gynhyrchu wedi’i wreiddio’n gadarn yn niwylliant ac arferion sefydliad.

O ganlyniad, gofynnom i ymatebwyr a oedd gan eu sefydliadau bolisi cyd-gynhyrchu penodol fel ffordd o ystyried a oedd cyd-gynhyrchu wedi’i wreiddio’n

[18] Llywodraeth Cymru (2023): Cyd-gynhyrchu: ymchwil i gefnogi adroddiad terfynol y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
[19] Llywodraeth Cymru (2022): Siarter ar gyfer Gofalwyr Di-dâl
[20] Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru
[21] Llywodraeth Cymru (2023): Cyd-gynhyrchu: ymchwil i gefnogi adroddiad terfynol y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

dda yn y sefydliad. Mae'r Cod Ymarfer[22] ar gyfer Deddf 2014 yn argymell "bod darparwyr yn cynnwys pobl wrth werthuso", felly gofynnwyd ymhellach sut maen nhw'n gwerthuso eu cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr ac a yw gofalwyr yn ymwneud â'r broses werthuso a monitro.

Gellir gweld arferion da o ran ymgorffori cyd-gynhyrchu mewn ymarfer sefydliadol yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg. Mae Fframwaith Strategol Cyd-gynhyrchu'r Cyngor[23] yn darparu fframwaith cyfannol i gymhwyso cyd-gynhyrchu i holl wasanaethau'r Cyngor drwy awgrymu pryd i ddefnyddio cyd-gynhyrchu a manteision gwneud hynny. Mae'r Fframwaith hefyd yn cynnwys cyfres o gamau, a'r gobaith yw y bydd diwylliant o gyd-gynhyrchu a chyd-ddylunio yn cael ei ledaenu o fewn y Cyngor. Mae'r Strategaeth Cyd-gynhyrchu ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn Abertawe[24] yn amlinellu dyheadau ffurfiol ar gyfer datblygu cyd-gynhyrchu o fewn gwasanaethau cymdeithasol Abertawe. Mae'r holl sefydliadau partner ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg wedi ymrwymo i Siarter Cyd-gynhyrchu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg[25]. Mae'r Siarter yn addo "rhoi pobl a gofalwyr wrth galon y broses o wneud penderfyniadau" ac yn galw ar bartneriaid i "gymryd camau ystyrlon i wreiddio egwyddorion cyd-gynhyrchu drwy eu sefydliadau". Mae'n nodi nifer o ymrwymiadau, gan gynnwys i aelodau'r bwrdd a sefydliadau aelod ymgymryd â hyfforddiant cyd-gynhyrchu.

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod cyd-gynhyrchu yn rhan o rai o'u strategaethau sefydliadol, a dywedodd rhai ei fod yn rhan o ddogfennau comisiynu. Fodd bynnag, dywedodd llawer o ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol bod gan gyd-gynhyrchu sail ffurfiol yn eu polisïau sefydliadol. Heb sylfaen gadarn ar gyfer cyd-gynhyrchu, mae mwy o debygolrwydd na fydd cyd-gynhyrchu yn digwydd, y bydd yn digwydd yn achlysurol neu y bydd yn amrywio o ran ansawdd.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr sut roeddent yn gwerthuso ac yn monitro eu cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr, ac a oedd gofalwyr yn rhan o unrhyw werthusiad o'r fath. Yn anffodus, ychydig iawn o enghreifftiau o werthuso penodol o gyd-gynhyrchu sydd i'w gweld ymhlith yr ymatebion. Dywedodd un ymatebydd o Bowys eu bod yn gwerthuso prosiectau sydd wedi cael eu cyd-gynhyrchu ond nad ydynt "o reidrwydd yn gwerthuso'r cyd-gynhyrchu ei hun". Dywedodd ymatebydd arall nad oeddent yn credu bod eu mecanweithiau "wedi esblygu'n dda iawn neu wedi cael digon o adnoddau i alluogi monitro o'r fath" o ran cyd-gynhyrchu. Roedd rhai atebion i'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at gasglu sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol neu ffurflenni adborth digwyddiadau, gan awgrymu ymhellach nad yw camau gwerthuso a monitro cyd-gynhyrchu wedi'u datblygu'n ddigonol.

Fodd bynnag, gellid nodi rhai arferion da. Esboniodd un ymatebydd o Abertawe sut mae Fforwm Rhieni sy'n Ofalwyr Abertawe yn adrodd yn chwarterol i'r awdurdod lleol ar yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio o ran cyd-gynhyrchu. Esboniodd ymatebydd o Gastell-nedd Port Talbot sut roedd cyfweliadau gwerthuso,

---

[22] Gofal Cymdeithasol Cymru: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cynllunio, Comisiynu a Cyd-gynhyrchu
[23] Cyngor Abertawe: Fframwaith Strategol Cyd-gynhyrchu
[24] Cyngor Abertawe: Strategaeth cyd-gynhyrchu ar gyfer gofal cymdeithasol yn Abertawe
[25] Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg (2021): Siarter Cyd-gynhyrchu Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg

a gynhaliwyd gan banel annibynnol o aelodau o Grŵp Cyd-gynhyrchu Gorllewin Morgannwg, wedi cael eu cynnal gyda'r rheini a oedd wedi cymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu, gan gynnwys Cynrychiolwyr Gofalwyr. Mae'r siarter cyd-gynhyrchu ranbarthol[26] yn cynnwys ymrwymiad ymysg sefydliadau partner i "ddatblygu a gwerthuso cerrig milltir penodol ar gyfer pob rhaglen er mwyn nodi gwaith cyd-gynhyrchu yn y dyfodol".

Derbynnir yn gyffredinol bod cyd-gynhyrchu da yn cynnwys dinasyddion o'r dechrau i'r diwedd ac mae'n ymddangos bod angen gwneud mwy i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu gwahodd i roi sylwadau ar gyd-gynhyrchu yn ystod y cam gwerthuso.

# Adran 4: Casgliadau

## Pa mor gyffredin yw cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr ledled Cymru?

Mae ymatebion i'r gwaith ymchwil hwn yn dangos bod cyd-gynhyrchu da gyda gofalwyr di-dâl yn digwydd mewn sawl rhan o Gymru. Esboniodd ymatebydd o Ben-y-bont ar Ogwr sut roedd gofalwyr yn cyfrannu at y gwaith o greu'r Gwasanaeth Lles Gofalwyr, o'r cysyniad yn 2017 hyd at gomisiynu, gyda gofalwyr wedi cael gwahoddiad pellach i gyfrannu nawr bod yr awdurdod lleol yn ail-dendro'r contract. Esboniodd ymatebydd o Rhondda Cynon Taf sut roedd dull Cymuned Ymholi wedi gwneud cyd-gynhyrchu yn haws i'w weithredu ac mae'n darparu model i'w ddilyn ar gyfer staff sy'n llai hyderus gyda chyd-gynhyrchu, ac ym Mhowys roedd prosiectau a ariannwyd gan RIF yn cael eu cyd-gynhyrchu a'u gwerthuso gyda gofalwyr. Cafodd Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Morgannwg[27] ei chynhyrchu ar y cyd â gofalwyr, cyn i Fforwm Cyswllt Gofalwyr gael ei sefydlu i gefnogi'r broses o'i rhoi ar waith. Yna, roedd gofalwyr ar draws y rhanbarth yn rhan o'r gwaith o lunio'r cynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth drwy ddigwyddiadau ymgysylltu '*Carers Come and Plan*'.

Roedd adran gyntaf yr adroddiad hwn yn edrych ar y mecanweithiau a ddefnyddir i ymarfer cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr ledled Cymru. Nododd fod llawer o awdurdodau lleol wedi sefydlu grwpiau neu fforymau i roi cyfle rheolaidd i ofalwyr ddod at ei gilydd a thrafod materion megis Fforwm Gofalwyr Sir Gaerfyrddin, Grŵp Ymgynghori Gofalwyr Sir y Fflint, Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Fynwy a Chaffi Gofalwyr Casnewydd. Mae'n amlwg hefyd bod y trydydd sector yn chwarae rôl, boed hwy'n cael eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau i ofalwyr eu hunain (megis Newcis sy'n cael ei gomisiynu gan Gyngor Wrecsam, ymysg eraill), neu ddim, fel yn achos y fforymau sy'n cael eu rhedeg gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Benfro. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu bod gan oddeutu hanner y siroedd

[26] Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg (2021): Siarter Cyd-gynhyrchu Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg
[27] Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg (2023): Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol Gorllewin Morgannwg

yng Nghymru grwpiau sirol i ofalwyr ddod at ei gilydd i roi sylwadau ar wasanaethau.

Mae'n ganmoladwy bod llawer o awdurdodau lleol yn aml yn uniongyrchol, ac weithiau drwy bartneriaid, yn hwyluso'r cyfranogiad hwn. Fodd bynnag, mae cyd-gynhyrchu ystyrlon yn nodweddiadol o ddinasyddion yn cael cyfle go iawn i ddylanwadu ar benderfyniadau, o gam cynnar ac ar bob cam o'r broses. Mae hyn yn gwahanu cyd-gynhyrchu oddi wrth ymgynghori, ac er ei bod yn ymddangos y gall yr holl grwpiau hyn gynrychioli ymgynghori â gofalwyr, nid yw'n glir a ydynt wedi'u sefydlu i roi llais ystyrlon i ofalwyr ar bob cam o'r broses o wneud penderfyniadau a chynllunio gwasanaethau. Nid yw'n glir a oes ganddynt rôl ffurfiol yn y broses o wneud penderfyniadau. Nid yw'n ymddangos bod llawer o siroedd yn cefnogi fforwm neu banel sy'n ceisio barn gofalwyr. Mae'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd a'r wybodaeth a ddarparwyd drwy'r arolwg yn awgrymu nad yw'r grwpiau presennol yn debygol o fodloni safonau cyd-gynhyrchu effeithiol. Mae hyn yn awgrymu bod cyfyngiadau gwirioneddol ar y graddau y mae cyd-gynhyrchu yn gweithredu ar y lefel hon o wneud penderfyniadau, er eu bod yn cynrychioli sylfeini y gellid adeiladu arnynt, gan fod eu natur sefydlog yn fwy ffafriol i gyfranogiad rheolaidd nag achlysurol, fel a phryd mae'r ymrwymiad yn digwydd.

Ochr yn ochr ag ystyriaethau strwythurau cyd-gynhyrchu ac a oes ganddynt ddigon o bŵer ac ymreolaeth, mae gwahanol lefelau o ddealltwriaeth o gyd-gynhyrchu hefyd yn chwarae rôl. Roedd yr adroddiad ar y gwerthusiad o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar gyd-gynhyrchu[28] yn egluro mai un pryder sy'n codi dro ar ôl tro ymysg "defnyddwyr gwasanaeth ac ymarferwyr oedd bod cyd-gynhyrchu'n aml yn cael ei gamddeall" ac nad yw cyd-gynhyrchu yn aml yn cael ei werthfawrogi am ei natur unigryw… o'i gymharu â ffyrdd presennol o weithio (fel ymgynghori)". Dywedodd un gofalwr di-dâl fod "cyd-gynhyrchu yn cael ei awgrymu pan, mewn gwirionedd, ymgynghori yw rhan helaeth y gwaith", tra dywedodd un arall am brofiad personol pan "roedd yn teimlo'n debycach i ymgynghori na chyd-gynhyrchu". Mae ein gwaith ymchwil yn ategu hyn, gyda llawer o'r enghreifftiau o gyd-gynhyrchu a gynigir gan ymatebwyr yn ymdebygu i ymgynghori, yn hytrach na chyd-gynhyrchu, gan nad oeddent yn cynnwys tystiolaeth o agweddau pwysig ar gyd-gynhyrchu (fel cymryd rhan ar bob cam o'r broses, gan gynnwys y camau cynnar). Cafodd nifer o enghreifftiau a gynigiwyd eu hepgor o'r adroddiad ar y sail hon. Fodd bynnag, wrth werthuso'r Ddeddf, soniodd ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth am "amwysedd ymddangosiadol gofynion a darpariaethau'r Ddeddf o ran cyd-gynhyrchu" ac nid yw hyn yn debygol o fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr o ran deall a gweithredu cyd-gynhyrchu.

Ar lefel ranbarthol, gellir arsylwi ar rai arferion da gyda nifer o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithredu pwyllgorau neu grwpiau penodol sy'n ffocysu ar ofalwyr ac sy'n cynnwys gofalwyr. Er gwaethaf strwythurau cadarnhaol cyd-gynhyrchu mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, dylid nodi bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynrychiolwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a gyfarfu drwy gydol 2022, wedi cael ei greu mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Gynrychiolwyr

[28] Llywodraeth Cymru (2023): Cyd-gynhyrchu: ymchwil i gefnogi adroddiad terfynol y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Gofalwyr ynghylch yr hyn roeddent yn teimlo oedd yn fethiannau o ran gweithredu cyd-gynhyrchu yn eu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Serch hynny, gellir gweld arferion da mewn sawl man, gan gynnwys Abertawe, lle mae'r awdurdod lleol yn ariannu Fforwm Gofalwyr Rhieni gweithredol a Chyngor Gofalwyr Ifanc. Mae Gwasanaeth Gwirfoddol Sir Abertawe hefyd wedi hwyluso Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu lleol o'r rheini sy'n gweithio ym maes cyd-gynhyrchu yn y sir. Ym Mhowys, mae'r Grŵp Llywio Gofalwyr wedi dylanwadu ar Gyllid Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Prosiectau Gofalwyr, ac mae'n ymddangos bod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf wedi mynd i gryn dipyn o drafferth i feithrin dealltwriaeth o gyd-gynhyrchu yn y rhanbarth ac ymrwymiad y sefydliad iddo.

## Hwyluso a gwreiddio cyd-gynhyrchu

Mae'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd[29] yn datgan y dylai sefydliadau gydnabod rhwystrau rhag cyfranogi a darparu cymorth priodol i alluogi cyfranogiad. Roedd Adran 2 yr adroddiad hwn yn ystyried sut mae gofalwyr yn cael eu cefnogi i gyd-gynhyrchu ac unrhyw heriau perthnasol.

Roedd yn amlwg mai un o'r prif resymau pam y gall fod yn anodd ymgysylltu, yn enwedig ymhlith y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu dwys, oedd diffyg amser ar ran gofalwyr. Mae hyn yn tanlinellu pa mor ddefnyddiol yw darparu gofal seibiant neu ofal amgen, fel mai rhai sefydliadau yn ei wneud, er mwyn rhyddhau gofalwyr i gymryd rhan. Dywedodd rhai ymatebwyr bod rolau Cynrychiolwyr Gofalwyr gwirfoddol yn gallu bod yn feichus, felly mae'n bwysig darparu cymorth i ryddhau eu hamser ar yr un pryd ag ymgysylltu â gofalwyr ychwanegol a'u cynnwys ar wahanol lefelau o wneud penderfyniadau, er mwyn rhannu'r gwaith o gyd-gynhyrchu. Dylai sefydliadau hefyd ystyried a allant ddarparu tâl i ofalwyr am eu hamser. Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o gyfarfodydd cyd-gynhyrchu yn cael eu cynnal ar-lein. Tra bod hynny'n fwy hygyrch i lawer o bobl, dylai sefydliadau geisio darparu rhai cyfleoedd wyneb yn wyneb i gyrraedd y rheini sydd wedi'u hallgau'n ddigidol ac i feithrin perthnasoedd cadarnhaol rhwng gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Dywedodd rhai ymatebwyr wrthym fod gofynion cyllido yn cyfyngu'n ddifrifol ar yr amser a'r opsiynau ar gyfer cyd-gynhyrchu. Yn unol â'r Ddeddf, dylai prosiectau a ariennir yn gyhoeddus fod yn ddigon hyblyg i alluogi cyd-gynhyrchu rheolaidd ac ystyrlon, a dylid ystyried hyn fel blaendal angenrheidiol o ran llwyddiant y prosiect neu'r gwasanaeth y mae'n ceisio ei gyflawni yn y dyfodol. Yn ogystal, nodwyd fod angen i uwch staff mewn sefydliadau ddeall a chyfrannu'n llawn at gyd-gynhyrchu, gan awgrymu bod angen hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol gymaint â gofalwyr. Mae hyn yn adlewyrchu'r teimladau a rannwyd gan ofalwr di-dâl yng ngwerthusiad Deddf 2014[30] a ddywedodd bod "ganddynt swyddog ar lefel uchel

[29] Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru
[30] Llywodraeth Cymru (2023): Cyd-gynhyrchu: ymchwil i gefnogi adroddiad terfynol y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

iawn, sy’n gyfrifol am gyd-gynhyrchu o fewn y sefydliad ac felly, mae’n ymddangos ei fod yn cael ei gymryd lawer mwy o ddifrif”.

Roedd Adran 3 yn edrych ar ba mor gadarn mae cyd-gynhyrchu wedi’i angori mewn arferion sefydliadol, gan ystyried sut mae’n cael ei wreiddio mewn sefydliadau a sut mae’n cael ei werthuso. Roedd yr atebion gan y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn nodi nad oedd gan eu sefydliad bolisi cyd-gynhyrchu penodol i godeiddio eu hymrwymiad i gyd-gynhyrchu a nodi sut y dylai weithredu. Er y gallai fod yn well cael sylfaen glir ac adnabyddadwy ar gyfer cyd-gynhyrchu mewn polisïau sefydliadol, mae’n bosibl y gellid cyflawni sylfaen sylfaenol debyg drwy gynnwys cyd-gynhyrchu mewn polisïau neu strategaethau eraill, fel y rheini sy’n ymwneud ag ymgysylltu â’r cyhoedd neu graffu. Beth bynnag fo’r dull gweithredu, dylai sefydliadau allu dangos yn glir bod ymrwymiad i gyd-gynhyrchu wedi’i wreiddio’n ffurfiol yn eu gweithrediadau.

Mae’r ymatebion yn awgrymu mai prin iawn yw’r enghreifftiau o werthuso wedi’i dargedu o gyfranogiad gofalwyr mewn cyd-gynhyrchu, er y gellir nodi rhai arferion da fel cyfweliadau gwerthuso sy’n cael eu cynnal gyda Chynrychiolwyr Gofalwyr. Os nad yw gofalwyr sy'n ymwneud â chyd-gynhyrchu yn ymwneud yn rheolaidd â gwerthuso a monitro'r prosiectau y maent wedi cyfrannu atynt, byddai'n awgrymu bod y cyd-gynhyrchu yn gryfach yn ystod camau cynharach y broses, ac yn wannach yn ystod camau hwyrach. Os na ofynnir i ofalwyr fyfyrio ar yr hyn a aeth yn dda a'r hyn nad aeth cystal o ran eu cyfraniad eu hunain, yna efallai y bydd sefydliadau'n colli cyfleoedd i adolygu a chryfhau eu dulliau o gyd-gynhyrchu.

## Adran 5: Argymhellion

1. Dylai awdurdodau lleol, os nad oes ganddynt un eisoes, sefydlu fforwm, panel neu fecanwaith tebyg sy’n cael digon o gyhoeddusrwydd, er mwyn rhoi cyfle i gronfa eang o ofalwyr gwrdd â’i gilydd yn barhaus i gyd-gynhyrchu’r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.
2. Dylai awdurdodau lleol adolygu lle gellid creu cyfleoedd ar gyfer swyddi Cynrychiolydd Gofalwyr ychwanegol ar bwyllgorau neu grwpiau yn yr awdurdod, sydd heb Gynrychiolwyr Gofalwyr yn barod ond sy’n ystyried materion sy’n berthnasol i ofalwyr.
3. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod ganddynt bwyllgor sefydlog neu is-grŵp penodol sy’n ystyried anghenion, adborth ac awgrymiadau gofalwyr di-dâl. Dylai’r pwyllgorau neu’r grwpiau hyn gael o leiaf dau le ar gyfer gofalwyr di-dâl fel aelodau llawn, a dylid cynnig cyfle i ofalwyr fod yn gyd-gadeirydd neu’n gadeirydd sy’n cylchdroi.
4. Dylai awdurdodau lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sefydliadau partner perthnasol geisio darparu gofal a chydnabyddiaeth ariannol i ofalwyr sy’n cymryd rhan mewn prosesau cyd-gynhyrchu. Gan ddefnyddio’r Siarter ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector ac aelodau darparwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel man cychwyn, dylent sicrhau bod ganddynt bolisi ar sut y byddant yn galluogi gofalwyr i gymryd rhan lawn ac ystyrlon mewn cyd-gynhyrchu.

5. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gellir cyflwyno mwy o hyblygrwydd i raglenni perthnasol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ganiatáu digon o amser a chyfleoedd ar gyfer cyd-gynhyrchu ystyrlon.
6. Dylai awdurdodau lleol ddangos bod gan gyd-gynhyrchu, yn enwedig o ran gofalwyr, sail gref yn eu polisïau/strategaethau sefydliadol a bod aelodau perthnasol o staff wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol ar gyd-gynhyrchu.
7. Dylai awdurdodau lleol adolygu a chryfhau cyfranogiad gofalwyr yng nghamau gwerthuso a monitro'r prosiectau a'r prosesau y buont yn ymwneud â hwy.
8. Dylai pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac awdurdod lleol ddangos, drwy adroddiadau cyhoeddus priodol, sut maent yn cyd-gynhyrchu â gofalwyr a beth fu canlyniadau hyn.

## Atodiad 1

Y cwestiynau a ofynnwyd yn yr holiadur cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr yng Nghymru ar gyfer gweithwyr proffesiynol:

- A oes gan eich sefydliad bolisi cyd-gynhyrchu penodol?
- Sut gall gofalwyr gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu yn eich ardal? Dywedwch wrthym am unrhyw fecanweithiau, prosesau, grwpiau, comisiynu neu bartneriaethau cyd-gynhyrchu ac ati.
- Sut mae gofalwyr yn cael gwybod am/yn cael eu gwahodd i gyfleoedd i gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu?
- A ddarperir unrhyw gymorth i ofalwyr i'w hannog i gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu? Er enghraifft, cyfarfodydd/arolygon ar-lein, treuliau, credydau amser, seibiant?
- A oes unrhyw sefydliadau allanol yn rhan o'r gwaith o'ch cefnogi chi i annog cyd-gynhyrchu? Os felly, pa sefydliadau a pha gymorth maen nhw'n ei ddarparu?
- Dywedwch wrthym am yr hyn rydych chi'n fwyaf balch ohono o ran cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr.
- Yn eich barn chi, beth yw'r heriau o ran sicrhau cyd-gynhyrchu ystyrlon gyda gofalwyr?
- Sut ydych chi'n gwerthuso ac yn monitro unrhyw gyd-gynhyrchu rydych chi'n ei wneud gyda gofalwyr ac a yw gofalwyr yn rhan o'r broses hon?
- A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ychwanegu?